20fed o Fehefin 2007

Mr Alun Thomas
Ysgrifennydd Awdurdod S4C
Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CFI4 5DU

Annwyl Alun,

Mae Opus TF yn croesawu'r cyfle i ymateb i bapur ymgynghorol S4C Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol:

1) A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg blant?

Rydym yn cytuno cant-y-cant y byddai gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant i'r sianel newydd.

Teimlwn yn gryf iawn na ddylai'r sianel hyn fod yn wasanaeth bylchiog. Mae gwasanaethau o'r math, neu gwasanaethau sy'n gorfod rhannu'r un platfform, neu sydd ag elfen o 'opt out' yn perthyn iddyn nhw yn dod yn llai ag yn llai deniadol i ddefnyddwyr, ac yn enwedig i ddefnyddwyr ifanc. Dyw gwasanaeth y BBC: 2W er enghraifft ddim yn taro deuddeg gyda'r genhedlaeth iau rhywsut, tra bod gwasanaeth Radio Cymru C2 wedi bod rhywfaint yn fwy llwyddianus i ddenu cynulleidfa niche, ifanc.

O'r opsiynau a gynigir, yn ddelfrydol, byddai cael gwasanaeth lawn sy'n rhedeg yn ddi-dor ac yn wasanaeth ar wahân i brif sianel S4C yn galluogi i S4C barhau i ddarlledu trafodaethau y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hyn felly yn cryfhau statws S4C fel darlledwr cryf sydd yn cynnig sawl gwasanaeth gwahanol.

Ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, efallai taw prif sianel S4C ddylai ddarparu amrywiaeth o'r rhaglenni, ond rydym yn cytuno gyda'r sylwadau y dylai'r sianel amrywio o ran oedrannau. Ar hyn o bryd, mae sianelau plant yn cynnwys rhaglenni sydd yn fwy 'plentynnaidd' ble mae pobl yn eu harddegau yn llai parod i wylio rhaglenni ar gyfer y gwylwyr iau ac yn fwy tebygol o gael eu denu gan adloniant a darllediadau Saesneg: Sianeli fel E4 yn enwedig adeg darlledu ***Big Brother*** neu 'User Generatated Content' sy'n ddeniadol lawn i bobl ifanc yn eu harddegau: You tube, MSN ac ati - hynny yw platfforms sydd â theimlad ac arddull ifanc yn perthyn iddyn nhw, sydd ar gael unrhyw bryd i'r rheiny sydd am eu defnyddio.

Mae pwynt 3.2.5 yn y ddogfen ymgynghorol braidd yn ddryslyd. Mae'n son am **dair** cynulleidfa amrywiol ond eto dwy sianel. Rydym yn teimlo y byddai cael dwy sianel wahanol yn cymhlethu'r gynulleidfa - oes angen dwy sianel wahanol ar gyfer pobl ifanc, plant a phobl yn eu harddegau? Mae'n edrych yn debyg y gallai'r un sianel gynnig sawl gwasanaeth ar gyfer plant hyd at 13 oed ac yna chynnig darpariaeth ar gyfer cynulleidfa hŷn gyda'r nos, a bod yn blatfform lle gellid cynnig deunydd atodol sydd yn perthyn i gynnwys prif sianel ddigidol S4C.

Bydd angen clirdeb hefyd o ran pwynt 3.4.2.1 'Darlledu Cydamserol'. Os bydd canran uchel iawn o'r ddarpariaeth yn cael ei ddarlledu ar S4C Digidol hefyd, bydd unigrywiaeth a photensial y sianel newydd yn cael eu tanseilio?

<u>Ysgolion</u>
Mae'n amlwg bod adloniant yn bwysig fel asgwrn cefn i blant, ond mae modd adeiladu ar y berthynas rhwng yr ysgolion a'r awdurdodau addysgol - h.y. annog i blant wylio, a rhoi pob ymgais i

weld sut mae'r ddarpariaeth yn medru cael ei gysylltu gyda'r curriculum a'r gwersi ysgol mewn ffordd adloniadol a ffresh. Mae'n bwynt amlwg efallai, ond mae'n rhaid ystyried taw mewn ysgolion y bydd nifer o wylwyr y sianel, felly mae'n rhaid cael rhyw fath o gysylltiad amlwg - a sicrhau defnydd o' sianel yn ystod yr ariâu ysgol. Mae modd i deledu ychwanegu at addysg plant a hynny mewn ffordd ysgafn a ffraeth. Yn sicr, mae cyflwyno plant i brif sianel S4C a phrif rhaglenni a digwyddiadau'r sianel (yr Eisteddfodau ac ati) yn allweddol. Nhw wedi'r cyfan yw defnyddwyr a gwylwyr y dyfodol. Teimlwn bod y sylw fel rhan o bwynt 4.3 ar dudalen 14 yn y ddogfen ymgynghorol yn allweddol: 'Bydd denu plant i sianel S4C yn ifanc yn cael effaith gadarnhaol ar eu tueddiad i wylio prif sianel S4C yn y tymor hir, gan sicrhau ei bod yn rhan hanfodol o'u repertoire gwylio eang.'

2) A* oes *gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch barn am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Rydym yn teimlo bad dechrau am 06:00 braidd yn fuan efallai - yn enwedig o ystyried y gosodiad o RHAN 2 - Crynodeb o Waith Ymchwil a Phrif Ganfyddiadau S4C, 4.1: '0 ran patrymau gwylio, mae plant 4-9 oed yn gwylio teledu yn ystod y slotiau amser 0700 i 0900 a rhwng 1515 a 2000.'

Tybed felly a fyddai 07:00 yn amser mwy realistig i ddechrau'r darlledu?

3) Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i blant a ddarparir gan S4C?

Rydym yn teimlo ei bod hi'n bwysig iawn bod safon aruchel rhaglenni plant S4C ar hyn o bryd yn cael ei gynnal. Dylai'r sianel gael ei berchnogi a'i boblogeiddio gan bobl ifanc ac yn wasanaeth sydd yn rhoi amrywiaeth o gyflwyniadau ar bynciau ac mewn arddulliau gwahanol - h.y. cwisiau, rhaglenni hamdden, sioeau talent, eitemau newyddion, dramâu, chwaraeon, digwyddiadau, dogfennau a cherddoriaeth. Mae hwyl a difyrrwch yn allweddol, yn ogystal â gweld pobl ifanc yn cyflwyno ac yn cymryd rhan.

Teimlwn na ddylai'r sianel orddibynnu ar bryniant ac ail-fersiynu rhaglenni animeiddiedig o'r Unol Dalaethau (er bod ***Spiderman*** yn gweithio'n wych!) Mae toreth o sianeli animeiddio ar gael yn barod sy'n cynnig hyn: "Cartoon Network UK" / "Disney Channel" / "Nickelodeon" / "Cool-Toons" i enwi ond ychydig.

4) A oes gennych unrhyw sylwadau *am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A* oes *gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?*

Rydym yn ffafrio opsiwn 2. Teimlwn na fyddai gwasanaeth bylchiog o fantais ac yn debygol o greu penbleth o ran y gwylwyr. Mewn byd delfrydol, byddai opsiwn 3 yn fwy ffafriol ond os yw S4C am barhau i ddarlledu trafodaethau y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â'r gwasanaeth plant newydd di-dor 7 diwrnod yr wythnos, beth fydd yn digwydd i ddarllediadau estynedig o ddigwyddiadau yr Eisteddfodau a'r Sioe Frenhinol? Tybed a fyddai'n ystyriaeth I S4C sicrhau lled-band ychwanegol ar gyfer y darllediadau estynedig o'r digwyddiadau hyn. Mi fyddai'n drueni gorfod aberthu unrhyw elfen o'r digwyddiadau pwysig hyn, sydd yn amlwg yn boblogaidd gyda defnyddwyr y sianel.

5) A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Nid ydym yn rhagweld y byddai darparwr masnachol yn fodlon rhedeg sianel tebyg i'r un sy'n cael ei amlinellu gan S4C yn y ddogfen ymgynghorol, gan ddefnyddio rhaglenni sydd wedi eu comisiynu'n wreiddiol gan S4C o dan y telerau masnach sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng y sianel a'u hamrywiaeth o gyflenwyr. Mae'r gwasanaeth newydd i blant a gynigir gan S4C yn un hollol unigryw ac yn cynnig potensial llawer cryfach na'r hyn allai unrhyw ddarparwr masnachol ei gynnig.

6) A allwch chi feddwl am ran-ddalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Na allwn - mae'r rhestr yr ymddangos yn un cyflawn.

7) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i blant?

Rydym yn teimlo bo'r sianel newydd yn perthyn i Gymru. Dylai sylw amlwg gael ei roi iddi ar wefan S4C er mwyn denu defnyddwyr newydd - h.y. byddai gwefan S4C yn "user-portal" naturiol i'r holl amrywiaeth o wasanaethau'r sianel. Bydd yn galluogi'r gynulleidfa i gyrchu'r safle yn eu hamser hamdden a ffeindio'r cynnwys a'r rhaglenni mae nhw eu hangen. Byddai hefyd yn fan iddynt gysylltu â'i gilydd a chreu cymuned ar-lein o ddefnyddwyr ifanc newydd i'r sianel a chynulleidfa y tu hwnt i Gymru. Rydym yn teimlo y byddai hyn yn cael cefnogaeth enfawr gan ysgolion a mudiadau addysg ac hefyd gan ddysgwyr yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yma yn gyfle unigryw i ni fel cenedl ac mae'r sylw blaenllaw sy'n cael ei rhoi i'r iaith Gymraeg yn y ddogfen ymgynghorol yn cael ei groesawu'n fawr iawn. Mewn oes lle mae cynifer o brif ddarlledwyr y Deyrnas Unedig fel petaen nhw'n cefnu ar y gynulleidfa iau, mae S4C yn ddewr ac yn dangos gweledigaeth gref. Bydd y sianel ar y blaen fel darparwr ar gyfer plant a chynulleidfa ifanc.

Rydym yn cefnogi gwasanaeth plant newydd S4C 100% ac yn dymuno pob llwyddiant i'r sianel newydd gyffrous hon.

Gobeithio'n fawr bod y sylwadau uchod yn eglur ac o ddefnydd. Mae pob croeso i chi gysylltu gyda ni yn Opus os hoffech rhagor o fanylion.

Pob hwyl i chi gyda'r ymgynghoriad.
Yn gywir
Gareth Williams
Prif Weithredwr Opus TF